# 3.3 SGRIPT I HWYLUSYDD Y GWEITHDY AMGYLCHEDD IACH

[**I'w ddarllen ochr yn ochr â'r sleidiau PowerPoint**]

## Sgript / Nodiadau PowerPoint i'r Hwylusydd

| Sleid(iau) | Sgript / Nodiadau |
|---|---|
| **1** | Ystyr SIFT yw Gwelliannau Cynaliadwy ar gyfer Timau. Mae'n gyfres o weithdai sy'n cefnogi'r broses o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant) ac fe'i datblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i bob 'corff cyhoeddus' a restrir yn y Ddeddf ei ddefnyddio ac i unrhyw sefydliad arall o'r sector cyhoeddus sy'n cyflawni datblygiad cynaliadwy. Heddiw rydym yn cymryd rhan yn y 'Gweithdy Amgylchedd Iach'.<br><br>Nod y Ddeddf Llesiant yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy – hynny yw; yn bodloni anghenion pobl heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwy; na gallu pobl mewn rhannau eraill o'r byd i fodloni eu hanghenion presennol a'u hanghenion yn y dyfodol. Wrth wraidd y cysyniad hwn mae sylweddoli mai dim ond un blaned sydd gennym a phrin yw'r adnoddau i gefnogi'r holl fodau dynol. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein hadnoddau naturiol yn ddoeth ac yn eu dosbarthu'n decach. Yn ogystal, ni allwn ddisgwyl i'r amgylchedd gefnogi bywyd dynol nawr ac yn y dyfodol os byddwn yn tanseilio ei allu i wneud hynny. |
| **2 cliciwch i ddatgelu pob llinell** | Mae'r gweithdy Amgylchedd Iach yn gyfle i dîm sy'n rhan o sefydliad y sector cyhoeddus i ganfod ei effeithiau amgylcheddol, lleihau ei effeithiau negyddol a gwella'r rhai cadarnhaol. Mae'n edrych ar weithgareddau'r tîm cyfan yn ogystal â gweithgareddau unigolion sy'n rhan o'r tîm.<br><br>Dyma'r hyn fyddwn ni'n ei wneud [cliciwch i ddatgelu pob llinell] |
| **3** | Gobeithio bod pob un ohonoch wedi gwylio o leiaf un o'r tair ffilm a argymhellwyd i baratoi ar gyfer heddiw ac i roi syniad i chi o bwysigrwydd hyn, ond yn gryno…<br><br>[dilynwch y sgript ar y sleid – caniatewch drafodaeth fer]<br><br>Eglurwch y ddau eicon ar waelod y sleid.<br><br>Yr eicon cyntaf yw'r saith nod llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) a'r ail eicon yw 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. |
| **4** | [Cyflwynwch y themâu] |
| **5** | [Darllenwch y sleid – hunanesboniadol] |

| | |
|---|---|
| | Gofynnwch y cwestiwn "Beth sy'n gyfrifol am yr argyfyngau hyn?"<br><br>Ceisiwch annog y tîm i gydnabod bod angen i ni gwestiynau'r sefyllfa sydd ohoni wrth ymateb i argyfyngau a bod yn agored i ddulliau radical newydd. |
| **6** | Mae gan gyrff gyhoeddus rwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd Cymru. Mae'r ddwy ddeddf yn gofyn i ni fod yn gyfrifol yn amgylcheddol. Ond y tu hwnt i'n dyletswydd gyfreithiol daw llawer o gydfuddiannau yn sgil cymryd camau – allwch chi feddwl am rai?<br><br>[Awgrymwch – Ailgodi'n wyrddach ac yn decach ar ôl COVID-19, swyddi gwyrdd, awyr glanach, bod yn fwy heini, yn iachach ac yn fwy diogel etc.] |
| **7** | [Defnyddiwch y sgript ar y sleid – sicrhewch fod pawb wedi cael cyfle i ddarllen y 5 ffordd o weithio] |
| **8** | [Byddwch chi a'ch cydweithwyr yn penderfynu p'un a ydych am ddefnyddio'r templed a ddarperir neu ei addasu. Byddwch hefyd yn penderfynu sut i'w gwblhau – e.e. drwy rannu dogfen neu gyfuno sawl copi yn ddiweddarach.]<br><br>Wrth drafod y camau o dan y tair thema, gwiriwch fod y cyfranogwyr yn hapus i gynnwys trafodaeth ar gamau gweithredu yn eu bywyd cartref neu a yw'n well ganddynt gadw'r camau gweithredu i ymddygiad sy'n ymwneud â gwaith. |
| **9** | [Darllenwch y rhain a sicrhewch fod pawb yn hapus] |
| **10** | **[Dylech ond defnyddio hwn os bydd angen – er mwyn cael pobl i sgwrsio a thorri'r iâ]** |

| Y Thema Datgarboneiddio | |
|---|---|
| **Sleid(iau)** | **Nodiadau** |
| **11 - 14** | Mae datgarboneiddio yn cyfeirio at atal rhyddhau allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) i'r atmosffer. Carbon deuocsid yn yr atmosffer yw prif achos newid hinsawdd. Mae carbon deuocsid yn cael ei ryddhau drwy losgi tanwydd ffosil – glo, olew, petrolewm, nwy siâl.<br><br>Penderfynodd y byd fod yn rhaid cadw cynhesu byd-eang o dan 1.5 gradd canradd er mwyn osgoi trychinebau. Mae'r byd eisoes wedi cynhesu 1 gradd. Dywedodd y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd yn 2018 fod yn rhaid i ni leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r targed hwn erbyn 2030. Ysgogodd y cyhoeddiad hwnnw ymwybyddiaeth byd-eang o'r argyfwng hinsawdd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net yn y sector cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030 ac i gyflawni allyriadau carbon sero net yng Nghymru erbyn 2050, yn dilyn cyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd.<br><br>Nid yw amser ar ein hochr ni. Mae'n rhaid i ni weithredu. Mae newidiadau mawr eisoes ar droed [y lluniau] ond nid oes unrhyw gam sy'n rhy fach. Mae'r hyn rydym yn ei brynu, yr hyn rydym yn ei fwyta, y ffordd rydym yn teithio, a lle rydym yn cael ein hynni – i gyd yn berthnasol. |

**Gwybodaeth ategol**

## Datgarboneiddio – dileu tanwydd ffosil yn raddol

**Enghreifftiau i gefnogi'r drafodaeth:**

- Teithio i'r gwaith ac o'r gwaith: rhoi'r gorau i yrru ar eich pen eich hun neu roi'r gorau i yrru'n gyfan gwbl. Rhannu car, beicio, cerdded, trafnidiaeth gyhoeddus: mae pob un ohonynt yn lleihau allyriadau niweidiol
- Gwresogi eich cartref/swyddfa: ydych chi'n gwneud hynny'n effeithlon?
- Ffynhonnell drydan: gallwch ddewis tariff gwyrdd
- Y bwyd rydym yn ei fwyta, ble a sut rydym yn prynu bwyd
- Y nwyddau rydym yn eu prynu ar gyfer y gwaith: beth yw ôl-troed carbon y nwyddau
- Effaith ein gwastraff ar ddatgarboneiddio
- Effaith allyriadau carbon ar fioamrywiaeth, mannau gwyrdd lleol, seilwaith gwyrdd
- Sut i annog newid mewn ymddygiad

**Astudiaeth Achos:**

Astudiaeth achos yn edrych ar sut y mae'r tîm arlwyo o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lleihau ei allyriadau carbon.

**Uchelgais:**
Y tîm yn cyflawni ei waith mewn ffordd sy'n datgarboneiddio fwyfwy er mwyn cyd-fynd â thargedau cenedlaethol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ein nod yn y pen draw yw cefnogi ein sefydliad i fod yn 'carbon sero net' erbyn 2030.

**Cyfleoedd:**

- Dylech adeiladu ar  yr hyn a brofwyd yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn creu arferion gwaith mwy hyblyg, gan gynnwys ymddygiad cynaliadwy tra'n gweithio gartref a gweithio'n hyblyg.
- Ceisiwch ganfod ble y ceir y cynnydd posibl mewn carbon o ganlyniad i'r pandemig, e.e. cyfarpar diogelu personol untro; siopa ar-lein; defnyddio mwy o ynni cartref. Dylech werthuso eich effaith bersonol.
- Meddyliwch am deithio, ynni, dŵr, caffael a bwyd wrth drafod datgarboneiddio

**Anelu at wneud y canlynol gyda'r cyfranogwyr:**
Nodi o leiaf un cam gweithredu clir sy'n fesuradwy, sydd â therfyn amser a pherchennog.

**Strategaethau allweddol**

Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru – Cymru Carbon Isel,

Cynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru 2 (LCDP2).)

Cyflawni sector gyhoeddus gydag allyriadau carbon sero net yng Nghymru erbyn 2030 a Chymru gydag allyriadau carbon sero net erbyn 2050

## Y Thema Bioamrywiaeth

| Sleid(iau) | Nodiadau |
| --- | --- |
| **15 - 17** | Bioamrywiaeth – Rydym yn clywed y gair hwn yn aml, beth yw ei ystyr? Ystyr bioamrywiaeth neu amrywiaeth fiolegol yw'r holl fywyd ar y Ddaear – mae'n cyfeirio at bopeth byw, yr holl bryfed, adar, mamaliaid, planhigion, algâu, bacteria, popeth sy'n fyw. Mae hefyd yn golygu pob ffordd y mae pob un o'r pethau byw hyn yn effeithio ar ei gilydd ac yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae bodau dynol yn rhan o fioamrywiaeth.<br><br>Rydym ni'n organebau byw hefyd ac rydym yn dibynnu ar yr holl ryngweithio hwn. Ni allwn fyw ar y Ddaear heb yr holl amrywiaeth fiolegol hon.<br><br>Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn i gyrff cyhoeddus reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>O dan Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Yn gryno, dylem ofalu am natur er mwyn i natur ofalu amdanom ni!<br><br>Gallwn gefnogi ein sefydliadau ar lefel tîm. Mae llwyth o gyngor a chymorth ar gael gan ein partneriaid<br><br>[Lluniau o'r canllaw gwirfoddoli gwyrdd a Buddsoddi ym Myd Natur sydd ar gael ar wefan Cynnal Cymru.] |

**Gwybodaeth ategol**

### Bioamrywiaeth – gwyrdroi'r argyfwng byd natur

**Enghreifftiau i gefnogi'r drafodaeth:**

- Rheoli safleoedd (gartref ac yn y swyddfa) – a ydym yn cyfrannu at ryddhau sylweddau niweidiol? A ydym yn darparu cynefinoedd megis planhigfeydd, gwestai i drychfilod, blychau/dyfeisiau bwydo adar?
- Rheoli'r ardd – cynefin i ddraenogod, adar, pryfed peillio?
- Y bwyd rydym yn ei fwyta – sut mae'n cael ei dyfu, o ble y daw, pa mor bell mae wedi teithio
- Papur a deunyddiau traul y swyddfa - o ble y daw'r rhain? A ydynt yn cael eu hailgylchu neu a oes ganddyn nhw nod gwirio'r Cynllun Stiwardiaeth Coedwigoedd?
- Ein ffyrdd o deithio a'u heffaith ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth
- Cyfleoedd i wirfoddoli a gwella mannau gwyrdd lleol
- Ymgysylltu â thimau a gwasanaethau eraill

**Astudiaeth Achos:**

Astudiaeth achos sy'n edrych ar sut y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cynorthwyo menter Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned.

**Uchelgais:**
Wrth gyflawni ei waith, ni fydd y tîm yn gwneud unrhyw beth i niweidio na diraddio byd natur a dylai gymryd pob cyfle i wella a chefnogi byd natur yn ei arferion gwaith a'i benderfyniadau strategol (gan gynnwys caffael). Bydd y tîm yn cymryd camau pendant i gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y sefydliad (Mae hyn yn ddyletswydd ar 'awdurdodau cyhoeddus' Cymru – a restrir yn Neddf yr Amgylchedd).

**Cyfleoedd:**

- Ceir tystiolaeth fod mannau gwyrdd yn gwella llesiant personol ac yn cynyddu cynhyrchiant tîm.
- Ceisiwch chwilio am ffyrdd i'r tîm ymgysylltu â mannau gwyrdd, e.e. diwrnodau gwirfoddoli, rheoli'r swyddfa y tu mewn a'r tu allan, gardd y 'cartref/swyddfa'.
- Ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi bioamrywiaeth gartref.
- Ceisiwch annog pryfed peillio ac amddiffyn a gwella byd natur
- Cefnogi ecosystemau dyfrol drwy ddefnyddio a chael dŵr yn ddoeth a threfniadau caffael
- Cyfrannu at raglenni plannu coed dilys

**Anelu at wneud y canlynol gyda'r cyfranogwyr:**
Nodi o leiaf un cam gweithredu clir sy'n fesuradwy, sydd â therfyn amser a pherchennog.

**Strategaethau Allweddol**
Deddf yr Amgylchedd Cymru – adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, ac mae Cynllun Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 eich Sefydliad yn canolbwyntio ar:

- Reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Rheoli gwastraff

## Y Thema Effeithlonrwydd Adnoddau

| Sleid(iau) | Nodiadau |
| --- | --- |
| **19 - 21** | Ystyr Dim Gwastraff yw peidio byth â thaflu unrhyw beth yn y bin sbwriel sy'n mynd i'r safle tirlenwi. Ni fyddwn byth yn creu unrhyw wastraff. Byddai popeth yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Bydd gwastraff organig megis croen llysiau neu galon afalau yn dadelfennu'n naturiol mewn tomen gompost neu'n cael eu prosesu gan organebau pridd i greu y rhan organig o'r pridd sy'n cael ei gymysgu â'r mwynau sy'n rhan o silt tywod neu glai.<br><br>Byddai'n golygu tynnu pethau megis cyfrifiaduron neu ffonau symudol yn ddarnau a defnyddio'r gwahanol rannau eto i greu ffonau a chyfrifiaduron newydd. Gellir defnyddio cynwysyddion a jariau gwydr sawl tro i gadw eitemau eraill. Gellir toddi gwydr hefyd dro ar ôl tro er mwyn creu gwrthrychau newydd.<br><br>Effeithlonrwydd adnoddau – beth yw ystyr hynny? Mae adnoddau yn brin. Rydym yn byw ar blaned sydd ond â swm penodol o ddeunyddiau crai ar gael. Mae angen llawer o amser ac egni i ddod â'r deunyddiau crai at ei gilydd i wneud llawer o'r pethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol.<br><br>Meddyliwch am glip papur – sydd wedi'i wneud o weiren ddur a hynny drwy gloddio'r haearn o'r tir a'i gymysgu â charbon ac ambell elfen arall. Yna bu'n rhaid troi'r dur yn weiren denau, cyn ei thorri a'i phlygu i'w siâp. Yna bydd llond gwlad o glipiau papur yn gadael y ffatri i'r siop er mwyn i chi allu prynu rhai i ddal eich tudalennau â'i gilydd. Mae hyn oll yn defnyddio llawer o bŵer, peiriannau, trafnidiaeth, deunydd pacio a mwy sy'n adnoddau hefyd. Gellir defnyddio clipiau papur dro ar ôl tro ond weithiau cânt eu taflu. Ydych chi erioed wedi taflu un? A wnaethoch chi feddwl o ble y daeth a sut y gellir ei ailgylchu?<br><br>Adnodd yw popeth rydym yn ei ddefnyddio. Er mwyn defnyddio pethau'n effeithlon mae'n rhaid i ni ystyried yr holl broses o wneud yr adnodd a sicrhau bod modd ei ddefnyddio gymaint â phosibl a'i ailgylchu i wneud rhywbeth newydd.<br><br>Mae ynni yn adnodd hefyd. Caiff y trydan rydym yn ei ddefnyddio yn ein cartrefi ei gynhyrchu'n aml drwy losgi tanwydd ffosil. Ond mae tanwydd ffosil yn dirwyn i ben, yn cynhyrchu llawer o lygredd ac yn achosi problemau, gan gynnwys newid hinsawdd a llawer o broblemau iechyd<br><br>Yr Hierarchiaeth Dim Gwastraff:<br><br>1. Gwrthod deunyddiau er mwyn annog gweithgynhyrchwyr i feddwl am eu deunydd pacio,<br>2. Lleihau'r deunyddiau rydym yn eu defnyddio naill ai drwy ailgynllunio neu brynu llai,<br>3. Ailddefnyddio cymaint ag y gallwn,<br>4. Ailgylchu'r pethau na allwn eu hailddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| | **Strategaethau Allweddol**<br>Tuag at Sero Wastraff Llywodraeth Cymru – y targed statudol yw ailgylchu 70% erbyn 2025 [Sero Wastraff – Un Cenedl Un Blaned] |

**Gwybodaeth ategol**

## Rheoli'r Newid i Ddim Gwastraff

**Enghreifftiau i gefnogi'r drafodaeth:**

- Deunyddiau traul y swyddfa
- Gwastraff bwyd
- Arferion caffael
- Sefydlu'r hierarchaeth wastraff
- Meddyliwch am ddillad, nwyddau trydanol, deunydd glanhau, gwastraff cyffredinol ac ailgylchu
- Gwastraff plastig – a sut y gallech wneud gwahaniaeth er mwyn lleihau plastig untro (neu ddefnydd plastig yn gyffredinol)
- Rheoli'r ardd

**Astudiaeth Achos:**
Astudiaeth achos yn dangos sut y gwngaeth 'Rhaglen Ein Gofod' Iechyd Cyhoeddus CYmru gefnogi egywgddorion econom gylchol.

**Uchelgais:**
Bydd y tîm yn mynd ati i geisio lleihau swm ei wastraff gan anelu at y targed "sero wastraff i'r safle tirlenwi". Bydd yn gwrthod, yn lleihau, yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu deunyddiau, yn y drefn honno.

**Anelu at wneud y canlynol gyda'r cyfranogwyr:**
Nodi o leiaf un cam gweithredu clir sy'n fesuradwy, sydd â therfyn amser a pherchennog.

**Cyfleoedd:**

- Ceisiwch beidio â defnyddio unrhyw bapur
- Dylech leihau neu gael gwared â phlastig untro
- Newidiwch arferion a threfniadau arlwyo er mwyn lleihau'r gwastraff bwyd
- Ceisiwch ailddefnyddio eitemau er mwyn prynu llai o bethau
- Dylech gael gwared â nwyddau corfforaethol (ysgrifbinnau plastig y cwmni ayb.) a gwrthod yr eitemau hyn gan sefydliadau eraill

| | |
|---|---|
| **22** | [Dylech ddod â'r sesiwn i ben drwy ofyn y cwestiynau hyn. Defnyddiwch yr atebion i gwblhau'r cynllun gweithredu oni bai eich bod wedi dechrau gwneud hynny'n barod ystod y drafodaeth. Cofiwch: gall y drafodaeth barhau ar ôl y sesiwn.] |